LLYTHYR BUGEILIOL ODDI WRTH ESGOB GREGORY
AR DDYDD GŴYL CATRIN O SIENA, 29 EBRILL 2020

"Rwy'n mynd i bysgota" meddai Simon Pedr.
"Rydym ninnau yn dod gyda thi", atebodd [*y disgyblion eraill*]." *(Ioan 21.3)*

Ar ôl popeth oedd wedi digwydd - tair blynedd o weinidogaeth gydag Iesu, y digwyddiadau terfysglyd yn Jerwsalem, bradychu Iesu, y treial, y croeshoeliad, y bedd, y bedd *gwag*, ymddangosiadau'r atgyfodiad - ar ôl hyn i gyd, ddiwedd popeth, mae Pedr yn penderfynu na allai feddwl am unrhyw beth gwell i'w wneud na mynd i bysgota.

Mae'r hanes yn dod ar ddiwedd yr Efengyl yn ôl Ioan, ac, mewn gwirionedd, mae Pedr yn penderfynu mynd yn ôl i'w hen ffyrdd. Mae'n teimlo bron iawn fel petai'n dweud, "Oedd, roedd hynny'n gyffrous, ond yn ôl i fel yr oedd hi rŵan." Ac fe wyddom beth sy'n mynd i ddigwydd yn y stori: mae'r digwyddiad a newidiodd fwyaf erioed ar fywyd Pedr ar fin digwydd. (Dydw i ddim yn mynd i ddweud wrthych chi; os nad ydych yn gwybod, ewch i ddarllen Pennod 21 o Efengyl Ioan)

Efallai y gellir maddau i ni am fod eisiau mynd yn ôl i'n hen ffyrdd, at normalrwydd. Rydym ninnau hefyd wedi cael y Pasg rhyfeddaf ein bywydau, ac efallai bod pethau wedi bod yn ofnadwy, ac, i eraill, mewn rhyw ffordd, ychydig bach yn gyffrous, ond mae'n debyg fod pob un ohonom yn barod i gael gwared ar y cyfyngiadau symud a mynd yn ôl at normalrwydd.

Ni fydd hynny'n digwydd. Yn gyntaf, mae bywydau wedi'u newid, wedi'u creithio gan drychineb, wedi'u siglo gan y profiad o ofalu am gleifion Covid, gan y profiad o ynysu. Bydd cymdeithas, rwy'n meddwl, yn fwy gwyliadwrus, ac hyd yn oed pan fydd y Llywodraeth yn caniatáu i ni, efallai na fyddwn innau eisiau rhuthro'n ôl i ystafelloedd ac achlysuron gorlawn, yn enwedig os yw'r feirws dal i lechu yn rhywle o'n cwmpas. Yn ail, mae'r Eglwys wedi newid. Rydym ni wedi dysgu cynnal cyfarfodydd o bell, rydym wedi dysgu addoli a gweddïo'n wahanol. Rydym wedi colli rhai pethau, ond, efallai, eisoes, yn ddiarwybod, wedi gollwng gafael ar bethau eraill. Mae cyllideb yr esgobaeth wedi mynd i'r pedwar gwynt ac i rai, mae eu busnesau wedi'u tanseilio ac nid yw gwaith yn dod yn ôl.

Mae neges y Pasg mewn gwirionedd yn dweud wrthym i beidio ag edrych yn ôl. Mae Iesu yn ein dyfodol, nid yn ein gorffennol. (Wel, efallai ei fod wedi gweithio gwyrthiau mawr yn ein gorffennol, ac wedi newid llawer, ond nid yw'n aros yno.) Mae'n ein galw ymlaen, ac yn dweud "Tyrd a'm dilyn i, rwyf i'n gwneud popeth yn newydd." Mae hyn yn gyfle gwych i ni edrych ar ein Heglwys ac ar genhadaeth ein Heglwysi mewn ffordd newydd. Beth sy'n wirioneddol bwysig? Beth mae Iesu'n ei ddweud am lynu wrth "hwn" a gollwng y "llall"? Gallwn edrych ar ein ffydd a dweud, "Ble nawr, Arglwydd?" Mae bron yn sicr y bydd hynny'r un fath i ni ag yr oedd i'r disgyblion – dim mynd yn ôl i'r hen ffyrdd.

Roedd Catrin o Siena yn torri pob rheol. Yn lleian Ddominicaidd, roedd hi'n ceryddu esgobion a brenhinoedd ac, mewn byd o ddynion, roedd hi'n dal ei thir yn ffyrnig. Yn syml, roedd hi'n anhygoel. Fe lwyddodd i berswadio'r Pab i roi'r gorau i'w alltudiaeth yn Avignon a'i annog i fynd yn ôl i Rufain, bu'n gyfryngwr hedd rhwng y Pab a Florence, cafodd drefn ar yr Eglwys ac ysgrifennodd glasur ysbrydol. Roedd yn un o'r ddwy ddynes gyntaf (Theresa o Avila oedd y llall) i gael eu cydnabod fel Doethuriaid yr Eglwys – y pinacl i athro Cristnogol. Bu farw y dydd hwn ym 1380. Ei gweledigaeth oedd, yn syml, y dylai'r Eglwys fod yr union beth yr oedd Iesu eisiau iddi fod – tystiolaethu'n effeithiol wirionedd Duw a chariad Duw.

Mae Catrin yn fy nghalonogi i oherwydd ei dycnwch, ac rwy'n gweddïo pan ddaw'r dydd y bydd y cyfyngiadau symud yn dod i ben na fyddwn ni ddim ond eisiau mynd yn ôl at yr hen ffyrdd; na fyddwn ni, fel y disgyblion, yn cael ein temtio i fynd yn ôl at bysgota. "Rydym yn bobl y Pasg, ac Haleliwia yw ein cân" meddai Awstin Sant.

Haleliwia yw, wrth gwrs “Molianwn yr ARGLWYDD Dduw” , mewn Hebraeg, a rhaid i ninnau foli, nid yn unig gyda’n gwefusau, ond yn ein bywydau (sydd wedi’u newid).

Pob bendith fo gyda chi,

+Gregory Llanelwy